**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2014 RHIF**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW ODDI AR STRYD BUTE, SGWÂR CALLAGHAN, CAERDYDD) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Medi 2014* |
| *Yn dod i rym* | 29 Medi *2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)**.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw oddi ar Stryd Bute, Sgwâr Callaghan, Caerdydd) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw oddi ar Stryd Bute, Sgwâr Callaghan, Caerdydd) 2014" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Priffordd**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatadau cynllunio a

roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 17 Tachwedd 2009 o dan y cyfeirnod 08/02716/C ac ar 8 Tachwedd 2012 o dan y cyfeirnod 12/01380/DC1, ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Briffordd**

**3.** Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

**4.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhan o briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatadau cynllunio, neu os yw'r caniatadau wedi eu dirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatadau cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Medi 2014

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p. 8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac maent yn arferadwy bellach gan

Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

**(2)** 1980 p.66.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### (Bras amcan yw pob mesuriad)

### <u>Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn</u>

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ffurfio pen troi wrth Blot E04, Sgwâr Callaghan, Butetown wrth ei chyffordd â Stryd Bute yn Ninas a Sir Caerdydd â'i hyd ar y mwyaf yn 35 o fetrau a'i lled a'r y mwyaf yn 22 o fetrau.

## ATODLEN 2

### <u>Y Datblygiad</u>

Ailddatblygu ochr ddeheuol Sgwâr Callaghan, (Plot EO4), Butetown, Caerdydd ar gyfer swyddfeydd, mannau parcio a gwaith tirweddu cysylltiedig.

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW ODDI AR STRYD BUTE, SGWÂR CALLAGHAN, CAERDYDD) 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn i alluogi'r datblygiad yn Atodlen 2 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw oddi ar Stryd Bute, Sgwâr Callaghan, Caerdydd) 2014 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1142164/2.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

wneud cais o fewn 6 wythnos i 29 Medi 2014 at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn **www.cymru.gov.uk** (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth /Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau/2014).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ffurfio pen troi wrth Blot E04, Sgwâr Callaghan, Butetown wrth ei chyffordd â Stryd Bute yn Ninas a Sir Caerdydd â'i hyd ar y mwyaf yn 35 o fetrau a'i lled a'r y mwyaf yn 22 o fetrau.

### ATODLEN 2

**Y Datblygiad**

Ailddatblygu ochr ddeheuol Sgwâr Callaghan, (Plot EO4), Butetown, Caerdydd ar gyfer swyddfeydd, mannau parcio a gwaith tirweddu cysylltiedig yn unol â'r caniatadau cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Caerdydd ar 17 Tachwedd 2009 o dan y cyfeirnod 08/02716/C ac ar 8 Tachwedd 2012 o dan y cyfeirnod 12/01380/DCI.